AMGUEDDFA CYMRU

Edina Trust

# Rhoi enw ar amrywogaeth o Gennin Pedr

I ddathlu 20 mlynedd o brosiect Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion rydym ni'n gwahodd disgyblion i enwi amrywogaeth newydd sbon o Gennin Pedr!

- **Gofynnon ni i Fferm Esker am amrywogaeth newydd o Gennin Pedr. Dyma'r canlyniad!**
- **Edrychwch yn fanwl ar y genhinen-bedr oherwydd rydym ni eisiau i chi ei henwi.**
- **Byddwn ni'n cofrestru'r enw buddugol gyda'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol.**
- **Bydd yr ysgol fuddugol yn cael copi o dystysgrif gydag enw'r genhinen gan y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol (RHS) a 10 o fylbiau o gasgliadau Fferm Esker sydd yn cyrraedd y safonau disgwyliedig mewn arddangosfeydd!**

## Amcanion dysgu:

### Gwyddoniaeth


- Adnabod ac enwi gwahanol fathau o Gennin Pedr drwy ddefnyddio priodoleddau gweledol fel lliw, siâp a maint.
- Deall pwrpas enwi rhywogaethau planhigion.
- Defnyddio technegau dosbarthu sylfaenol i grwpio'r Cennin Pedr ar sail priodoleddau gweledol.

***Addas ar gyfer plant rhwng: 8-11 oed.***



**Mae enwi planhigyn yn waith caled! Darllenwch y wybodaeth ganlynol i sicrhau eich bod yn dilyn y camau cywir.**


amgueddfa.cymru/dysgu/bylbiaur-gwanwyn-i-ysgolion/



# Enwau Gwyddonol

Mae gan nifer o blanhigion enwau cyffredin. Mae Clychau'r gog, Sgorpionllys, a Bysedd y cŵn i gyd yn enwau cyffredin. Gall yr enwau hyn newid; ond ni all enwau gwyddonol newid. Mae enwau gwyddonol yn helpu pawb ledled y byd i wybod yn union beth yw'r planhigyn, hyd yn oed os ydyn nhw'n siarad ieithoedd gwahanol!

Mae enw gwyddonol yn cynnwys dwy ran, y genws ac enw'r rhywogaeth.



**Mae'r genws yn debyg i gyfenw; dyma'r enw a roddir i grŵp o blanhigion sy'n perthyn yn agos. Mae'r Cennin Pedr yn perthyn i'r genws Narsisws.**

**Enw'r rhywogaeth yw enw'r planhigyn penodol. Yn aml mae'r enw hwn yn ddisgrifiadol neu'n cynnwys enw'r ardal lle mae'r planhigyn yn tyfu.**

**Mae rhywogaethau gwyllt Cennin Pedr yn cynnwys:**




***Narcissus pseudonarcissus***
(Cenhinen-Bedr wyllt)

***Narcissus poeticus***
(Cenhinen-Bedr y beirdd)



amgueddfa.cymru/dysgu/bylbiaur-gwanwyn-i-ysgolion/



# Beth yw Cyltifar?

Yn y gystadleuaeth hon amrywogaeth cyltifar newydd o'r Cennin Pedr fyddwn ni'n ei enwi, nid rhywogaeth newydd. Felly mae angen cadw ambell beth mewn cof wrth ddewis enw.

**Mae Cyltifar (sy'n fyr am amrywogaeth cyltifar) yn amrywogaeth o blanhigyn sydd wedi ei ddewis a'i fridio gan bobl i gael nodweddion penodol - fel lliw y blodyn, maint y ffrwyth, gallu i wrthsefyll salwch neu arferion twf. Cylfitar yw ein Cennin Pedr ni.**



# Enwau Cyltifar

Mae dwy ran i enwau gwyddonol am gyltifarau, y genws ac enw'r rhywogaeth, ond ni ddylai enw'r rhywogaeth fod yn Lladin, mae'n rhaid iddo fod mewn iaith fodern. Rhaid i enw'r rhywogaeth gael ei ysgrifennu mewn dyfynodau sengl. Edrychwch ar yr enwau cyltifar hyn ar Gennin Pedr fel enghreifftiau.

**Narcissus 'King Alfred'**



**Narcissus 'Tête-à-Tête'**



**Narcissus 'Ice Follies'**



amgueddfa.cymru/dysgu/bylbiaur-gwanwyn-i-ysgolion/

# Rheolau'r gystadleuaeth

Mae pob Cennin Pedr yn perthyn i'r genws Narsisws. Rhaid i'ch enw chi ddilyn y patrwm Narsisws '__________'.

Mae enwau Cyltifar yn cael eu hysgrifennu mewn ieithoedd modern: yn y gystadleuaeth hon rhaid iddynt fod yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

Dylai'r enwau fod yn unigryw: Ni ddylai'r enw fod wedi cael ei ddefnyddio ar genhinen-bedr o'r blaen. Ewch i Gofrestr Cennin Pedr y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol i weld a ydy eich enw wedi ei ddefnyddio'n barod.

Ni ddylai'r enwau fod yn gamarweiniol (e.e. galw cenhinen-bedr felyn yn 'genhinen-bedr wen').

Dylai'r enwau fod yn greadigol ac yn ystyrlon: gallent ddisgrifio edrychiad, tarddiad neu berson/lleoliad. Gallent hefyd fod yn farddonol, yn hwyl neu'n symbolaidd.

Gall pob disgybl gyflwyno un cais. Cyflwynwch eich ceisiadau gyda'r ddolen isod. Rhaid rhoi enw, enw ysgol a chyfeiriad e-bost yr ysgol.

Mae'r telerau ac amodau llawn i'w gweld yma.

Ar ôl i chi feddwl am enw, sganiwch yma a'i gyflwyno.

**Bydd angen i chi roi enw'r genhinen, eich enw chi, ac enw a chyfeiriad e-bost eich ysgol.*

